***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3611

## Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 11 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2007

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 11 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2007.

**2.** Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

**3.** Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

### Diwrnodau penodedig

**4.**—(1) Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym yw 2 Ionawr 2008.

(2) Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym yw 31 Mawrth 2008.

### Darpariaethau trosiannol ac arbed

**5.** Mae Rhan 3 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn (Darpariaethau trosiannol ac arbed) yn gymwys.

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Rhagfyr 2007